

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Conwy i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Conwy bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Conwy 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae Conwy wedi perfformio'n dda drwy gydol tair blynedd y fframwaith presennol ac mae ei berfformiad yn parhau'n uwch na'r canolrif mewn nifer o feysydd. Mae'r ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant yn amlwg ac mae ganddo lawer o bartneriaethau allanol buddiol. Mae Conwy wedi gweld gostyngiad bach yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau, o ganlyniad i Covid-19 o bosibl, er gwaethaf cynnydd bach yn nifer yr aelodau. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y staff wedi peri heriau. Mae'r newidiadau i'r strwythur staffio a nodwyd yn 2018/19 bellach wedi cael eu gwneud, ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y staff proffesiynol. Dylai'r cynllun i ganolbwyntio ar lyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol sicrhau bod llyfrgelloedd Conwy yn gadarn. Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan gynyddol bwysig fel canolfannau cymunedol ac mae hon yn duedd a welir ledled Cymru. Fodd bynnag, mae lefelau digonol o staff yn allweddol i sicrhau llwyddiant. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth wedi gwneud yn dda i gynnal lefelau perfformiad dros y tair blynedd er gwaethaf rhai gostyngiadau mewn cyllidebau.

- Cynhaliodd Conwy ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018, yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, a chafodd ganlyniadau cadarnhaol.
- Mae nifer y llyfrau plant ac oedolion sy'n cael eu benthyca wedi gostwng. Er hyn, mae nifer y llyfrau oedolion sy'n cael eu benthyca yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Mae'r gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac yn 2019/20 cwblhawyd prosiect cyfalaf mawr y Ganolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy - canolfan sydd wedi cael ei chroesawu.
- Mae gwariant cymesur ar ddeunydd i blant, ac adnoddau Cymraeg, wedi'i gynnal ac mae cyfanswm y benthyciadau Cymraeg yn uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Gwelwyd gostyngiad sylweddol o 31% mewn lefelau staffio proffesiynol er 2017/18. Nid yw'r targedau staffio (DA 13) yn cael eu cyflawni mwyach. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

### 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

## **2.1 Hawliau craidd**

Mae Conwy yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd llyfrgelloedd yn cael eu datblygu fel canolfannau cymunedol fel rhan o strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Conwy. Roedd Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ddrafft ar gyfer 2020-25 wedi'i llunio, ac roedd i fod i fynd drwy bwyllgorau'r Cyngor ym mis Mawrth, ond bu'n rhaid gohirio hyn oherwydd y pandemig. Yn 2019/20 cwblhawyd cam olaf y Strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd pan agorwyd y Ganolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy.

## **2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau**

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Conwy yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

At ei gilydd, mae Conwy wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith. Y prif newid er 2018/19 yw bod y targed staff cymwysedig ddim yn cael ei gyflawni mwyach.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Conwy ei arolygon oedolion a'i arolygon plant ym mis Tachwedd 2018, a gwelwyd bod bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn parhau'n uchel, a bod dangosyddion cadarnhaol o'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei gael ar fywydau pobl.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=11/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	87%	11/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Conwy bedair astudiaeth achos o'r fath.

- Rhaglen Rhwymedigaeth Ieuenctid – menter ar y cyd â'r ganolfan waith leol. Mae hon yn fenter lwyddiannus ar y cyd â'r ganolfan waith leol sy'n cynorthwyo oedolion ifanc i ddefnyddio adnoddau'r llyfrgell er mwyn gwella eu sgiliau. Cafodd y rhaglen hon effaith gadarnhaol ar sgiliau a hyder y bobl ifanc a fu'n cymryd rhan ynddi.
- Grŵp Dysgwyr Cymraeg, Canolfan Ddiwylliant Conwy – grŵp newydd i ddysgwyr Cymraeg yn Llyfrgell Conwy. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng Menter Iaith Conwy a'r llyfrgell. Mae dysgwyr a phobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn cyfarfod i ymarfer a defnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn helpu i dynnu sylw at adnoddau Cymraeg yn y llyfrgell. Mae un unigolyn yn nodi bod y grŵp hwn wedi ei helpu i gael mwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol lle mae'n gallu ymlacio.
- Prentisiaeth Uwch – Mae dau aelod o staff y llyfrgell wedi cael cefnogaeth i gwblhau prentisiaeth lefel uwch yng Ngholeg Llandrillo Menai. Roedd y profiad yn un cadarnhaol i'r staff, ac arweiniodd at gyfle i adeiladu ar brofiadau yn y gweithle a myfyrio ar arferion a phrosesau, tra'n cryfhau perthnasoedd gwaith drwy'r profiad o ddysgu ar y cyd.
- Corneli Sgwrsio, Bae Colwyn – Grŵp cymunedol i bobl sydd wedi cael profedigaeth ac sy'n teimlo'n unig. Mae hon yn fenter ar y cyd â Gofal mewn Galar Cruse. Roedd y grŵp hwn yn rhoi cyfle i aelodau o'r gymuned siarad am alar, pwnc y mae llawer o bobl yn cael anhawster i siarad amdano, ac sy'n aml yn cael ei osgoi. Mae'r lleoliad cyfeillgar a diragfarn yn y llyfrgell wedi helpu rhai unigolion i wneud ffrindiau newydd a chael clust gyfrinachol i wrando arnynt.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Conwy ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	82%	10/18	25%	75%	94%	dd/b
c) iechyd a lles	74%	8/19	38%	69%	96%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	97%	=7/19	90%	96%	100%	dd/b
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=7/18	78%	91%	99%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=10/18	88%	97%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	95%	=2/17	65%	85%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	97%	=10/18	85%	96%	100%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.0	=15/19	8.0	9.1	9.5	dd/b
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,270	18/22	2429	3987	6874	3,300
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,384	4/22	239	909	2131	1,562
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	159	7/22	78	145	244	163
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen <sup>2</sup>	853	6/22	311	680	1468	857
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	11	5/22	4	9	14	11
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	33%	5/22	14%	30%	64%	35%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£13,688	7/22	£7,260	£12,368	£23,333	£13,655
b) % ar staff	73%	3/22	48%	61%	76%	72%
% ar adnoddau gwybodaeth	12%	=11/22	5%	13%	22%	11%
% ar offer ac adeiladau	1%	=20/22	0%	8%	28%	1%
% ar gostau gweithredol eraill	14%	14/22	1%	18%	35%	16%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£10,556	2/22	£0	£1,567	£13,027	£5,529
DA 16 – Oriau agor <sup>3</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.09%	20/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.25%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.31%	13/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.59%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; <sup>2</sup> fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; <sup>3</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

#### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)<sup>i</sup>

Cynhaliodd Conwy ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Tachwedd 2018, yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, a chafodd ganlyniadau cadarnhaol. Cynhaliodd y

gwasanaeth hefyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwasanaeth llyfrgell cartref a theithiol yn chwarter cyntaf 2019, a arweiniodd at uno'r gwasanaeth yn ystod 2019/20. Mae Conwy hefyd yn dangos ymgysylltiad parhaus â chwsmeriaid drwy arolwg 'Canlyniadau dysgu' blynyddol, ynghyd ag ymgynghoriad ynglŷn â'r Ganolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy. Mae pob llyfrgell sefydlog yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a llesiant hefyd yn cael cefnogaeth dda. Mae gwaith wedi'i wneud ar y cyd â nifer o sefydliadau iechyd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Darllen yn Well ar gyfer Iechyd Meddwl (Llyfrau ar Bresgripsiwn).

### **3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)<sup>ii</sup>**

Mae Conwy yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, â 10 cangen (pump ohonynt yn cael eu cefnogi gan y gymuned) sydd i gyd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos. Er bod cyfanswm yr ymweliadau wedi gostwng ychydig, mae'r gwasanaeth wedi nodi bod yr ymweliadau blynyddol yn dangos cynnydd cyn cau'r llyfrgelloedd oherwydd Covid-19. Mae llyfrgell Conwy yn fwyaf arbennig wedi gweld cynnydd ar ôl symud i'r ganolfan ddiwylliant newydd. Yn anffodus, mae nifer y llyfrau oedolion a phlant a fenthycwyd wedi gostwng ychydig yn ystod cyfnod y fframwaith, fel sydd wedi digwydd yn y rhan fwyaf o Gymru. Er hyn, mae nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd yn parhau'n llawer uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae ymweliadau â'r wefan wedi gostwng, ond mae'r gwasanaeth yn nodi bod 3,000 yn rhagor o ymwelwyr unigryw â'r wefan yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r gallu i ymuno â'r llyfrgell drwy dudalen catalog y llyfrgell a benthycia eitemau electronig ar unwaith. Mae Conwy wedi dangos y ffordd i Gymru gyfan â'r fenter hon. Gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y lawrlwythiadau electronig, sydd i'w weld hefyd yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yng Nghymru.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>iii</sup>**

Er nad yw'r dangosyddion ansawdd ar gyfer caffael stoc/gwariant (DA 9) wedi'u cyflawni, mae hyn yn gyson â'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yng Nghymru. Mae Conwy yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Er hyn, mae'r gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae gwariant cymesur ar ddeunydd i blant ac adnoddau Cymraeg wedi'i gynnal, ac mae cyfanswm y benthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r targed ar gyfer DA 10 (deunyddiau Cymraeg) yn parhau i gael ei gyflawni. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau (DA 12) yn parhau i gael ei gyflawni. Mae'r ddarpariaeth gyfrifiaduron personol wedi'i chynnal drwy gydol tair blynedd y fframwaith, ac mae'r defnydd wedi cynyddu ychydig er 2018/19.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)<sup>iv</sup>**

Oherwydd yr ad-drefnu staff, gwelwyd gostyngiad o 15% yng nghyfanswm y staff ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd gostyngiad sylweddol o 31% yn nifer y staff proffesiynol er 2017/18. Nid yw'r targedau staffio (DA 13) yn cael eu cyflawni mwyach. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd. Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu er 2018/19, ond mae wedi gostwng ychydig ers blwyddyn gyntaf y fframwaith adrodd. Mae buddsoddiad yn y gwasanaeth yn parhau'n

uwch na'r canolrif. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi'u cynnal, ac mae'r targed yma'n parhau i gael ei gyflawni ac yn unol â'r canolrif yng Nghymru.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Conwy yn amlinellu sut y mae'r llyfrgell yn cyfrannu at nifer o strategaethau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â llythrennedd; iechyd a llesiant; pobl hŷn, cynhwysiant digidol ac atal tlodi. Tynnir sylw at nifer o bartneriaethau â sefydliadau amrywiol, megis Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Age Connects. Mae digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn wedi canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac mae Conwy yn cyfrannu tuag at ddau faes blaenoriaeth yng Nghynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-23: pobl a chymuned.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Conwy yn cyfeirio at gwblhau cam olaf y gwaith ar ei Strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd. Cafodd yr elfen olaf ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd, y llyfrgell ar gyfer ardal Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno, ei gwireddu ym mis Rhagfyr 2019, ar ôl blynyddoedd o waith, pan agorwyd Canolfan Ddiwylliant newydd Conwy. Mae'r adolygiad o'r gwasanaethau llyfrgell symudol a chartref wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac mae'r gwasanaethau hyn wedi'u huno yn 2019/20, â llwybrau diwygiedig yn 2019/20. Mae strwythur staffio newydd wedi'i roi ar waith er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Conwy. Bydd y swyddi newydd yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol staff, darllen a llythrennedd a chanolfannau cymunedol. Bydd y strategaeth newydd a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn 2021, yn canolbwyntio ar flaenoriaethu Llyfrgelloedd fel Canolfannau Cymunedol.

## 6 Casgliad

Mae Conwy wedi perfformio'n dda drwy gydol tair blynedd y fframwaith presennol ac mae ei berfformiad yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif mewn nifer o feysydd. Mae'r ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant yn amlwg ac mae ganddo lawer o bartneriaethau allanol buddiol. Mae Conwy wedi gweld gostyngiad bach yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau, o ganlyniad i Covid-19 o bosibl, er gwaethaf cynnydd bach yn nifer yr aelodau. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y staff wedi peri heriau. Mae'r newidiadau i'r strwythur staffio a nodwyd yn 2018/19 bellach wedi cael eu gwneud, ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y staff proffesiynol. Dylai'r cynllun i ganolbwyntio ar lyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol sicrhau bod llyfrgelloedd Conwy yn gadarn. Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan gynyddol bwysig fel canolfannau cymunedol ac mae hon yn duedd a welir ledled Cymru. Fodd bynnag, mae lefelau digonol o staff yn allweddol i sicrhau llwyddiant. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth wedi gwneud yn dda i gynnal lefelau perfformiad dros y tair blynedd er gwaethaf rhai gostyngiadau mewn cyllidebau.

<sup>i</sup> Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

<sup>ii</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.



- 
- iii *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*
- iv *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*